



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

**Strategaeth i gefnogi plant sy'n derbyn gofal i gyrraedd eu nodau mewn addysg a dod yn fwy uchelgeisiol.**

**Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn gyrraedd ei nodau. Dylai bod gan bawb uchelgeisiau (breuddwydion) a chyfleoedd.**

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i addysg ragorol. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal.

**Yn derbyn gofal** – pan mae awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb rhiant fel bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael y pethau sydd eu hangen arnyn nhw.


Rydyn ni eisiau cefnogi pob plentyn sy'n derbyn gofal cymaint â phosibl.

Rydyn ni eisiau iddyn nhw gael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall.

"...os nad ydy'ch bywyd chi'n sefydlog, dydy'ch addysg chi ddim yn sefydlog..."

Merch, grŵp ffocws 16+

Mae'r llyfryn yma'n edrych ar ein strategaeth (cynllun) newydd i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.



## Rhesymau dros y cynllun newydd

Ni ddylai cefndir plentyn neu berson ifanc fyth ei atal rhag gallu cyrraedd ei nodau.

Mae plant sy'n derbyn gofal yn gallu cyrraedd eu nodau os yw gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill yn cydweithio.

### Ein nodau

Rydyn ni o'r farn y bydd y cynllun newydd yma:

- yn helpu plant i gyflawni eu huchelgeisiau a chyrraedd eu nodau
- yn dangos i bawb sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal pa mor bwysig yw eu rôl
- yn gwneud i bobl feddwl am addysg plant wrth wneud penderfyniadau
- yn helpu plant sy'n derbyn gofal i wneud dewisiadau bywyd positif
- yn helpu i gwtogi ar nifer y plant sy'n troseddu ac yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid
- yn defnyddio gwybodaeth i gynllunio'n well a rhannu pethau sy'n gweithio.

Mae gan y cynllun yma **3** phrif faes i'w newid.

# 1. Arweinyddiaeth – rolau a chyfrifoldebau

Rydyn ni eisiau cael arweinyddiaeth dda sy'n gweithio'n dda.

## Arweinyddiaeth yn Llywodraeth Cymru:


Rydyn ni eisiau camau eglur i bawb sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal.

Mae adrannau addysg o ledled Cymru'n dod at ei gilydd i greu pedwar 'consortiwm rhanbarthol'.

**Consortia rhanbarthol** – sy'n gofalu am addysg pob dysgwr yn eu hardal.

**Camau i'w cymryd**

Rydyn ni eisiau i bob consortiwm rhanbarthol fod ag un prif berson i helpu plant sy'n derbyn gofal. Byddan nhw'n rheoli cyllid, yn rhannu arfer da ac yn rhoi hyfforddiant i ysgolion.



Mae gan bob ysgol berson arweiniol dynodedig a llywodraethwyr.

**Person arweiniol dynodedig** – sy'n gwneud yn siŵr bod plant yn ddiogel.

**Llywodraethwyr** – sydd â pholisïau ar waith i wneud yn siŵr bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'i bod yn ddiogel.

**Camau i'w cymryd**

Byddwn ni'n manylu ar ganllawiau (rheolau) newydd ar gyfer pobl arweiniol dynodedig a llywodraethwyr.

Mae yna gyfraith newydd – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n dweud y dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal allu cael yr addysg orau bosibl. Dylai popeth weithio tuag at y nod hwnnw, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â lle maen nhw'n byw.

**Camau i'w cymryd**

Byddwn ni:

- â chamau (Cod Ymarfer) y bydd yn rhaid i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol eu dilyn
- yn gwrando ar ymgynghoriadau eraill i weld a oes angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gwledydd eraill (fel yr Almaen neu Denmarc) yn cefnogi plant mewn ffyrdd gwahanol. Maen nhw'n cynnwys nodau dysgu gydol oes wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chymorth, addysg a gofal.

**Camau i'w cymryd**

Rydyn ni eisiau rhoi cynnig ar hyn mewn un ardal yng Nghymru i weld pa mor dda y mae'n gweithio.

## Arweinyddiaeth mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

Mae aelodau awdurdodau lleol yn cyflawni rôl rhieni i blant sy'n derbyn gofal. Dylen nhw bob amser feddwl 'a fuaswn i'n ei wneud fel hyn os mai fy mhlentyn i fuasai hwn?'

**Camau i'w cymryd**
Rydyn ni eisiau:

- codi ymwybyddiaeth fel bod aelodau awdurdodau lleol yn deall eu cyfrifoldeb
- i awdurdodau lleol fod ag un prif berson sy'n trin anghenion addysg plant sy'n derbyn gofal
- edrych ar rôl gweithwyr cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol
- gwneud yn siŵr bod Cydgysylltwyr Plant Sy'n Derbyn Gofal Mewn Addysg a Phobl Arweiniol Dynodedig yn cydweithio
- cynnwys gofalwyr maeth yn fwy mewn cefnogi addysg.

**Cydgysylltwyr Plant Sy'n Derbyn Gofal Mewn Addysg** – sy'n gweithio gyda phlant yn yr ysgol i lunio cynlluniau dysgu a chael cymorth iddyn nhw.

**Swyddogion Adolygu Annibynnol** – sy'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn iawn.

Mae gofalwyr maeth yn dweud:


- bod angen gwell hyfforddiant arnyn nhw
- eu bod nhw eisiau cysylltiadau gwell ag ysgolion
- eu bod nhw eisiau i eraill ddeall sut maen nhw'n cefnogi dysgu plant.

**Camau i'w cymryd**
Rydyn ni eisiau i gonsortia rhanbarthol ddefnyddio cyllid ar gyfer hyn.

## Arweinyddiaeth mewn ysgolion a cholegau

Mae'n rhaid i athrawon a staff eraill feddu ar y sgiliau iawn. Dylen nhw ddeall effaith bod mewn gofal ar addysg.

**Camau i'w cymryd**
Byddwn ni'n annog pob ysgol i fod â llywodraethwr i weithio gyda staff i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.



## 2. Meithrin gwell partneriaethau a chydweithio

Mae'n rhaid i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg gydweithio i helpu plant a phobl ifanc i aros mewn addysg.

**Camau i'w cymryd**
Rydyn ni eisiau:

- sefydlu cymuned ar-lein i rannu arfer da ar hyd a lled Cymru
- mwy o gyfleoedd i awdurdodau lleol gydweithio
- gweithio gydag Estyn (arolygwyr ysgolion) i wneud cymorth yn well
- sefydlu Grŵp Llywio Strategol newydd o weithwyr proffesiynol o awdurdodau lleol a sefydliadau i helpu i wella gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- i awdurdodau lleol edrych ar eu systemau ac os nad yw rhywbeth yn gweithio – ei newid
- i gonsortia rhanbarthol weithio gydag ysgolion i helpu rhieni maeth.


Nod prosiect Ymgyrraedd yn Ehangach yw helpu mwy o bobl ifanc i fynd ymlaen i Addysg Uwch.

Mae hyn yn helpu plant sy'n derbyn gofal.

**Camau i'w cymryd**
Byddwn ni'n cynnal digwyddiadau sy'n cefnogi gwasanaethau sy'n cydweithio trwy'r prosiect Ymgyrraedd yn Ehangach a grwpiau cenedlaethol eraill.


Pan mae pobl ifanc yn mynd i'r coleg neu'r brifysgol, mae'n rhaid iddyn nhw ddweud eu bod nhw'n 'derbyn gofal' i gael y cyllid i'w cefnogi. Mae hyn yn gallu bod yn annifyr ac mae yna rai pobl ifanc sydd ddim yn gwneud hyn.

**Camau i'w cymryd**
Rydyn ni eisiau ffyrdd gwell o rannu gwybodaeth fel nad yw hyn yn digwydd.



# 3. Dysgu ac addysgu da

Mae ysgolion a cholegau'n gwneud gwahaniaeth go iawn i addysg plant sy'n derbyn gofal.



**Camau i'w cymryd**

Rydyn ni eisiau:

- i ysgolion roi lleoedd i blant sy'n derbyn gofal a chadw llygad ar absenoldebau
- i ysgolion rannu gwybodaeth yn well
- i athrawon gael yr holl hyfforddiant sydd ei angen arnyn nhw
- i bob cynllun dysgu fod wedi'i ddiweddaru
- i ysgolion weithio gyda phlant wrth osod nodau.

Mae angen i ysgolion gydweithio mwy â cholegau i helpu plant sy'n derbyn gofal i aros mewn addysg a pheidio â rhoi'r gorau iddi.

**Camau i'w cymryd**

Rydyn ni eisiau:

- i awdurdodau lleol lunio rhestr o wybodaeth i helpu myfyrwyr i gael y cymorth iawn
- i ysgolion gael ymweliadau undydd â cholegau ar gyfer disgyblion blwyddyn 11
- i golegau fod â pherson arweiniol dynodedig yno i blant sy'n derbyn gofal
- i ysgolion a cholegau fod â ffyrdd gwell i rannu gwybodaeth
- cynlluniau mentora ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

# Pethau eraill rydyn ni eisiau eu gwneud!

## Rydyn ni eisiau defnyddio data yn well.

Rydyn ni eisiau casglu gwybodaeth mewn ffyrdd gwell a rhannu arfer da.

**Camau i'w cymryd**

Byddwn ni:

- yn cael awdurdodau lleol i wirio gwybodaeth sydd wedi'i chasglu'n barod a gwneud systemau'n haws
- yn casglu mwy o wybodaeth am blant sydd wedi'u mabwysiadu
- yn casglu mwy o wybodaeth am y rheiny sy'n gadael gofal ar ôl iddyn nhw adael y system ysgol.

## Rydyn ni eisiau trefniadau ariannu gwell.

Mae consortia rhanbarthol yn gofalu am yr holl gyllid i gefnogi addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Rydyn ni eisiau i'r cyllid wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl.


**Camau i'w cymryd**

Rydyn ni eisiau mwy o ffyrdd o adrodd fel ein bod ni'n gallu olrhain cyllid a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud.

Mae plant a phobl ifanc yn aml yn wynebu problemau hyd yn oed ar ôl iddyn nhw gael eu mabwysiadu.

**Camau i'w cymryd**

Byddwn ni'n edrych ar y ffyrdd gorau i helpu plant sydd wedi'u mabwysiadu.



**Rydyn ni eisiau cynnwys plant sy'n derbyn gofal mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau.**

Dylai plant a phobl ifanc gael dweud eu dweud ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

Buon ni'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal i ddatblygu'r strategaeth yma.

Gwnaethon nhw ddweud wrthon ni:

- bod oedolion a gwasanaethau cymorth weithiau ddim yn gwrando
- bod rhai ohonyn nhw ddim yn cael cynnig rhywun sy'n gallu eu helpu nhw i ddweud eu dweud pan maen nhw'n teimlo nad oes unrhyw un yn gwrando ar eu barn
- bod rhai athrawon ddim yn deall sut beth ydy hi i fod yn derbyn gofal neu i fod wedi'ch mabwysiadu
- y bydden nhw'n hoffi cael eu cynnwys mewn hyfforddi athrawon ynglŷn â'r problemau y maen nhw'n eu hwynebu
- eu bod nhw eisiau dweud eu dweud yn fwy ynglŷn â'u cynlluniau dysgu
- nad ydyn nhw eisiau i gyfarfodydd ynglŷn â'u gofal gael eu cynnal yn ystod oriau ysgol
- os oes yn rhaid iddyn nhw symud ysgol, eu bod nhw eisiau teimlo'n rhan o'r penderfyniad
- eu bod nhw eisiau mwy o gymorth a gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael pan maen nhw'n gadael yr ysgol yn 16 oed.

**Camau i'w cymryd**
Byddwn ni:

- yn rhoi mwy o gyfleoedd i blant ddweud eu dweud
- yn gofyn i blant sy'n derbyn gofal a yw'r strategaeth yma'n helpu eu haddysg
- yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i gynnwys plant mewn cynllunio ac ariannu
- yn cefnogi'r Siarter ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

# Y camau nesaf

Mae gan y cynllun yma gamau i ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol eu cymryd.

Bob blwyddyn, fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad ar ba mor dda y mae'r cynllun yn gweithio. Caiff yr adroddiad cyntaf ei ysgrifennu yn 2017.

Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

